

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar

Hydref 2021



# 1. Cefndir

## Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 2 Mawrth 2021.<sup>1</sup> Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Cafodd y Bil ei ailgyflwyno ar 12 Mai 2021 yn dilyn cynnig cario drosodd.<sup>2</sup>

2. Mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil yn nodi:

*"The purpose of this Bill is to establish the Advanced Research and Invention Agency (ARIA) as a statutory corporation. ARIA is a new type of funding body for conducting, commissioning and supporting ambitious scientific research with a tolerance to failure."*<sup>3</sup>

3. Cwblhaodd y Bil ei gyfnodau yn Nhŷ'r Cyffredin ar 7 Mehefin 2021. Cafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 8 Mehefin 2021<sup>4</sup> a threfnir ei ail ddarlleniad ar gyfer 2 Tachwedd 2021.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, yn darparu bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu'n dod o fewn y cymhwysedd hwnnw.

5. Ar 9 Gorffennaf 2021, gosododd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd<sup>5</sup> mewn cysylltiad â'r Bil.

---

<sup>1</sup> Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar. [Bil Tŷ'r Cyffredin 264 2019-21]

<sup>2</sup> Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar. [Bil Tŷ'r Cyffredin 1 2021-22]

<sup>3</sup> Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar, **Nodiadau esboniadol, Mai 2021, paragraff 1.**

<sup>4</sup> Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar. [Bil Tŷ'r Cyffredin 24]

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru, **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar,** Gorffennaf 2021

6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 21 Hydref 2021.<sup>6</sup>

## **Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer**

---

7. Mae paragraffau 12 i 15 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd arnynt, sef cymalau 1 i 10 a'u Hatodlenni priodol.

8. Mae cymal 1 o'r Bil yn sefydlu corff corfforaethol, sef yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar ("ARIA") ac yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n nodi strwythur ARIA a sut y bydd yn gweithredu.

9. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes unrhyw amodau na chyfyngiadau a fyddai'n atal sefydlu corff tebyg mewn perthynas â Chymru.<sup>7</sup>

10. Mae cymal 2 yn nodi swyddogaethau ARIA, gan ddarparu y caiff ARIA gynnal ymchwil wyddonol, datblygu gwybodaeth wyddonol a manteisio arni, a chasglu, rhannu, cyhoeddi a datblygu gwybodaeth wyddonol, neu gomisiynu neu gefnogi eraill i wneud hynny. Mae'r cymal yn darparu nad yw'r gweithgareddau wedi'u cyfyngu i'r DU, ond gosodir dyletswydd i roi sylw i ba fudd a ddaw i'r DU yn sgil gweithgareddau o'r fath.

11. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ei chydsyniad, oherwydd y gall y Senedd ddeddfu i roi swyddogaethau o'r fath i gorff a grëir ganddi (mewn perthynas â Chymru).<sup>8</sup>

12. Mae cymal 3 o'r Bil yn nodi y gall ARIA, wrth arfer ei swyddogaethau, roi pwys penodol ar y potensial i sicrhau neu hwyluso manteision sylweddol drwy ymchwil wyddonol, neu drwy ddatblygu a manteisio ar wybodaeth wyddonol, sy'n peri risg uchel o fethu.

13. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad gan ei bod o fewn cymhwysedd y Senedd i roi'r ddyletswydd hon ar gorff a grëir ganddi sy'n debyg i ARIA pe bai'n cael ei greu ar gyfer Cymru.<sup>9</sup>

---

<sup>6</sup> Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar](#), Gorffennaf 2021

<sup>7</sup> Memorandwm, paragraff 13

<sup>8</sup> Memorandwm, paragraff 13

<sup>9</sup> Memorandwm, paragraff 13

- 14.** Mae cymal 4 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol roi grantiau mewn perthynas ag ARIA, a gall y grantiau hynny fod yn ddarostyngedig i amodau.
- 15.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad gan y byddai o fewn cymhwysedd y Senedd i ddeddfu i roi'r pwerau hyn i gorff a grëir ganddi sy'n debyg i ARIA.<sup>10</sup>
- 16.** Mae cymal 5 o'r Bil yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddydau i ARIA o ran arfer ei swyddogaethau os ystyrir bod angen gwneud hynny er budd diogelwch gwladol.
- 17.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn a ganlyn:
- "Mae angen cydsyniad, gan fod y ddarpariaeth hon yn gweithredu ar y cyd â chymalau sylweddol y Bil ac mae gan y Senedd gymhwysedd i gyfarwyddo corff a sefydlwyd gan y Senedd yng Nghymru at yr un dibenion. Ni[d] yw'r cymal hwn yn ymwneud â diogelwch cenedlaethol, yn hytrach mae'n ymwneud â rhoi cyfarwyddiadau."<sup>11</sup>*
- 18.** Mae cymal 6 yn darparu bod yn rhaid i ARIA roi gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gais at ddibenion ei swyddogaethau mewn perthynas ag ARIA, neu mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny.
- 19.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad gan y byddai unwaith eto o fewn cymhwysedd y Senedd i roi'r ddyletswydd hon i gorff a grëir ganddi sy'n debyg i ARIA.<sup>12</sup>
- 20.** Mae cymal 7 yn cyflwyno Atodlen 2, sy'n cynnwys darpariaeth ynghylch cynlluniau ar gyfer trosglwyddo staff ac eiddo, hawliau a rhwymedigaethau i ARIA.
- 21.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad oherwydd y caiff y Senedd roi'r pŵer i wneud cynlluniau tebyg i Weinidogion Cymru.<sup>13</sup>
- 22.** Mae cymal 8 o'r Bil yn nodi y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddiddymu ARIA drwy reoliadau ar unrhyw adeg ar ôl y dyddiad y bydd 10 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r Ddeddf gael ei phasio.

---

<sup>10</sup> Memorandwm, paragraff 13

<sup>11</sup> Memorandwm, paragraff 13

<sup>12</sup> Memorandwm, paragraff 13

<sup>13</sup> Memorandwm, paragraff 13

- 23.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad oherwydd bod gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu ar gyfer diddymu corff a grëir ganddi drwy reoliadau o dan yr un telerau.<sup>14</sup>
- 24.** Mae cymal 9 yn cyflwyno Atodlen 3, sy'n diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006) drwy ychwanegu cyfeiriad at ARIA at baragraff 87 o Ran 2 o Atodlen 7A, gan wneud ARIA yn "awdurdod penodol" o dan baragraff 197 o Atodlen 7A. Mae hyn yn ychwanegu mater penodol a gedwir yn ôl i Ddeddf 2006 ac effaith hyn yw atal y Senedd rhag deddfu mewn perthynas ag ARIA, gan gynnwys dileu neu addasu swyddogaethau ARIA.
- 25.** Er nad oes gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu i wneud y ddarpariaeth hon, mae Llywodraeth Cymru o'r farn, serch hynny, y byddai gwneud ARIA yn fater penodol a gedwir yn ôl yn gyfystyr ag addasu cymhwysedd y Senedd ac felly bod angen cydsyniad y Senedd ar y sail honno (yn unol â Rheol Sefydlog 29.1).<sup>15</sup>
- 26.** Mae cymal 10 yn datgan y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, addasu unrhyw "ddarpariaeth berthnasol" y mae o'r farn ei bod yn briodol o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil neu unrhyw reoliadau a wneir o dan gymal 8. At ddibenion y ddarpariaeth, ystyr "darpariaeth berthnasol" yw deddfwriaeth sylfaenol a basiwyd cyn diwedd y Sesiwn yn Senedd y DU y caiff y Ddeddf ei phasio ynddi, neu ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir. O'r herwydd, pŵer Harri VIII yw hwn.
- 27.** Mae cymal 11 yn gwneud darpariaeth bellach ar gyfer cwmpas y pwerau i wneud rheoliadau yng nghymal 8 o'r Bil ac Atodlen 1 iddo. Mae hefyd yn pennu'r gweithdrefnau seneddol y mae'r pwerau deddfwriaethol dirprwyedig amrywiol o dan y Bil hwn yn ddarostyngedig iddynt. Yn rhinwedd cymal 11(4)(b), bydd rheoliadau a wneir o dan gymal 10 sy'n diwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddarpariaeth o ddeddfwriaeth sylfaenol neu ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol yn Senedd y DU.
- 28.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 10 oherwydd y gall y Senedd gynnwys darpariaeth debyg i hon mewn unrhyw Ddeddf, ond dim ond i'r graddau y mae'n ymwneud ag addasu deddfwriaeth Cymru gan Weinidogion Cymru. Mae o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 11 gan ei fod yn gweithredu mewn cysylltiad â

---

<sup>14</sup> Memorandum, paragraph 13

<sup>15</sup> Memorandwm, paragraff 14

darpariaethau o sylwedd y Bil y mae angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer.

**29.** Mae Llywodraeth y DU o'r un farn â Llywodraeth Cymru o ran angen cydsyniad y Senedd, ac eithrio mewn perthynas â chymal 5. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y cymal hwn yn ymwneud â diogelwch gwladol, sy'n fater a gedwir yn ôl.

## **Y rhesymau dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil**

---

**30.** Mae paragraff 16 o'r Memorandwm yn nodi'r rhesymau dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.

*"Bydd ARIA yn gorff newydd sydd â chylch gwaith ledled y DU gyda'r potensial i ariannu ymchwil a gwaith dyfeisio blaengar ledled y DU mewn modd a ddyfernir yn gystadleuol yn seiliedig ar deilyngdod. Nid yw'n disodli nac yn dyblygu unrhyw gorff presennol y DU a gadwyd yn ôl nac unrhyw gorff a sefydlwyd yng Nghymru, a byddai'n cynnig mwy o gyfle ar draws y DU."*

**31.** Fodd bynnag, mae'r paragraff yn cloi gyda'r cafeut a ganlyn:

*"...mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau ym Mil ARIA o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac nid yw'r Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn darparu ar gyfer unrhyw ddylanwad ar weithgareddau ARIA gan y llywodraethau datganoledig."*

## **Safbwynt Llywodraeth Cymru**

---

**32.** Ym mharagraff 17 o'r Memorandwm, nodir fel a ganlyn:

*"Diogelu pwerau'r Senedd yw ein safbwynt ni. Mae Bil ARIA yn ceisio cadw sawl pŵer yn ôl ar gyfer Llywodraeth y DU o ran ymchwil ac arloesi yng Nghymru ac ystyriwn hyn i fod yn annerbyniol."*

**33.** Mae paragraff 21 o'r Memorandwm yn dod i'r casgliad a ganlyn:

*"...ni fyddai'n briodol i'r Senedd roi ei chydsyniad ar gyfer y Bil hwn am ddau reswm: yn gyntaf, mae cadw pwerau newydd yn ôl ar gyfer Senedd y DU mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi yn annerbyniol; yn ail, nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cynnwys y llywodraethau datganoledig yn y gwaith o lywodraethu ARIA. Rwyf wedi cyfleu hyn i'r Gweinidog BEIS a gan nad yw ein pryderon wedi'u hystyried hyd yma,*

*argymhellaf nad yw'r Senedd yn rhoi ei chydysyniad mewn perthynas â'r Bil hwn ar ei ffurf bresennol."*

## **Adroddiad Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi**

**34.** Ar 24 Mehefin 2021, cyhoeddodd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi ei adroddiad ar y Bil.<sup>16</sup> Nodwn ei ganfyddiadau yn ein trafodaeth isod.

---

<sup>16</sup> Y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, Tŷ'r Arglwyddi, Pedwerydd Adroddiad Sesiwn 2021–22 Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar, Bil Telathrebu (Diogelwch), Mehefin 2021, Papur Tŷ'r Arglwyddi 29

## 2. Trafodaeth y Pwyllgor

35. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 4 Hydref 2021.<sup>17</sup>

### Ein barn ni

36. Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 1 i 10 a'u Hatodlenni priodol i'r Bil fel y nodir yn y Memorandwm. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru ar bob un o'r cymalau, namyn un, a restrir yn y Memorandwm.

37. O ran cymal 5, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd, gan mai diben cymal 5 yw rhoi cyfarwyddydau. Ar ôl ystyried y materion a godwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Memorandwm, nid ydym yn rhannu'r farn hon ac ystyriwn fod y cymal yn ymwneud â diogelwch gwladol, a'i fod felly yn fater a gedwir yn ôl.

38. Nodwn fod y Gweinidog wedi mynegi pryderon i Lywodraeth y DU ynghylch gwneud ARIA yn awdurdod a gedwir yn ôl o dan Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (o ganlyniad i gymal 9 ac Atodlen 3). Nodwn hefyd fod y Gweinidog wedi mynegi pryderon ynghylch y diffyg darpariaethau ar gyfer cynnwys llywodraethau datganoledig yn y broses o lywodraethu ARIA. Nodwn ymhellach ddatganiad y Gweinidog yn y Memorandwm "nad yw ein pryderon wedi'u hystyried hyd yma", ac mae hyn yn siomedig.

**Casgliad 1.** Rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch cymal 9 o'r Bil, ac Atodlen 3 iddo, gan ei fod yn arwain at gyflwyno mater penodol newydd a gedwir yn ôl i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, gan gyfyngu ar gymhwysedd y Senedd i ddeddfu. Rydym felly yn cytuno bod cadw pwerau newydd i Senedd y DU mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi yn annerbyniol.

**Argymhelliad 1.** Cyn dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, dylai'r Gweinidog roi diweddariad ar drafodaethau â Llywodraeth y DU, a chadarnhau a yw wedi ceisio diwygiad i'r Bil i ddileu'r cyfyngiad ar gymhwysedd y Senedd yn Atodlen 3 (fel y'i cyflwynwyd gan gymal 9).

**Casgliad 2.** Rydym hefyd yn pryderu bod cymal 10 o'r Bil yn cynnwys pŵer Harri VIII, yr ydym yn ystyried y gellid ei ddefnyddio i ddiwygio Deddf 2006. Fel y nodwyd yn ddiweddar yn ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil

---

<sup>17</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Hydref 2021



Cymwysterau Proffesiynol, ni ddylai rheoliadau a wneir gan Weinidogion y DU addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog geisio diwygiad i'r Bil i'r perwyl na all Gweinidogion y DU ddefnyddio'r pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau sy'n diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*.

**39.** Yn olaf, rydym yn cydnabod safbwynt Llywodraeth Cymru na fydd yn argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r Bil ar ei ffurf bresennol.

## **Y materion y cyfeiriodd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi atynt**

---

**40.** Mae'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, yn ei adroddiad ar y Bil, yn gwrthwynebu cymal 8 ar egwyddor<sup>18</sup> ac yn nodi bod cyfiawnhad Llywodraeth y DU dros gynnwys pŵer i ddiddymu ARIA drwy offeryn statudol yn annigonol.<sup>19</sup> Mae'r adroddiad yn nodi:

*"Accordingly, we take the view that the power in clause 8 for Ministers to dissolve ARIA by statutory instrument is inappropriate and should be removed from the Bill. If ARIA is to be dissolved, it should be done by Parliament in primary legislation rather than by Ministers in secondary legislation."*<sup>20</sup>

**41.** Mewn perthynas â chymal 10, mae'r adroddiad yn nodi:

*"In the absence of a convincing explanation why clause 10 should contain such a wide-ranging Henry VIII power, we take the view that clause 10 is inappropriately wide. Any identifiable need for consequential provision should be added to Schedule 3."*<sup>21</sup>

**42.** Rydym yn tynnu sylw'r Senedd at y materion hyn.

---

<sup>18</sup> Papur Tŷ'r Arglwyddi 29, paragraff 6

<sup>19</sup> Papur Tŷ'r Arglwyddi 29, paragraff 7

<sup>20</sup> Papur Tŷ'r Arglwyddi 29, paragraff 13

<sup>21</sup> Papur Tŷ'r Arglwyddi 29, paragraff 18